# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - MAI 2015

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 20 Mai |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Ysgol Rhostryfan |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Nodwyd fod y gadair bellach wedi ei throsglwyddo i'r Is-Gadeirydd Neal Williams a diolchwyd i Gwilym Williams am ei waith dros y flwyddyn.<br><br>Yn bresennol roedd Elin Evans, Gwilym Ll Williams, Gwilym v Thomas, Tom Ellis, Elwyn Jones, Jason Hunt, Michelle Williams a Neal Williams. Hefyd yn bresennol roedd Caryl E Lewis (Clerc).<br><br>Cadeirwyd y cyfarfod gan EE gan yr oedd NW yn rhedeg yn hwyr. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Rhys Owen, Aeron M Jones a Nerys Evans |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Dim |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 15 Ebrill 2015**<br>Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gywir. Materion yn codi:<br><br>- Sbwriel ar y ffyrdd – parhau yn broblem fawr. Angen holi'r cyngor os byddent yn fodlon i'r Cyngor Cymuned ariannu arwyddion. Clerc hefyd i lythyru Mcdonalds yn tynnu ei sylw at y broblem. A fyddai McDonald's yn fodlon talu am arwyddion?<br>- Uned gorfodaeth cynllunio – angen holi am ddiweddariad am y tir wrth sain.<br>- Loriau yn mynd drwy Rhosgadfan – Clerc i holi Uwch Swyddog Mwynau y Cyngor ynglyn ar amodau. Angen ceisio cofnodi faint o loriau sydd yn pasio. Clerc i edrych yn ol ar y cofnodion, hyn wedi ei drafod yn flaenorol. Aelodau yn bryderus gan fod y loriau yn chwalu'r ffordd. |
| 5. | **Ethol Swyddogion**<br>Nodwyd fod Neal Williams, Is-Gadeirydd rwan yn trosglwyddo fel Cadeirydd am y flwyddyn. Etholwyd Rhys Owen fel is-gadeirydd. |
| 6. | **Materion i'w trafod:**<br><br>a. Lleoliadau Cyfarfodydd (RO)<br>Cytunwyd ar y canlynol o ran lleoliadau - Canolfan Felinwnda mis nesa, ysgol Rhosgadfan mis Gorfennaf, yna yn ol i ysgol Rhosgadfan mis Medi.<br><br>b. Set wag Rhosgadfan (NW)<br>Williams Green ddim gyda diddordeb bellach. Clerc i roi hysbyseb yn hysbysfwrdd yr ysgol a mountain rangers. Angen rhoi hysbyseb eto yn C&D a Lleu.<br><br>c. Hysbysfwrdd y fynwent (NE)<br>Clerc yn nodi fod wedi methu agor yr hysbysfwrdd gyda'r goriadau sydd ar gael, angen checio gyda Bethan.<br><br>d. Maes parcio sdesion – tyllau wedi codi (EJ)<br>Adroddwyd fod Sion Owen wedi llenwi'r tyllau.<br><br>e. Eiddo yn Dolydd – golau llachar (EJ)<br>Ymateb gan Meirion Williams, Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd - wedi anfon yr ymholiadau yma i'r Gwasanaeth Gofal Stryd a Thrafnidiaeth. Bydd swyddogion yn ymweld â'r safle yn fuan i drafod y mater gyda'r perchenog. |

| | |
|---|---|
| | f. Darn gwair wrth Llwybr gyda terfyn Glan Wern (NE)<br>Ymateb gan Cyngor Gwynedd – Maent eisoes wedi cael gwared â'r planhigion. Maent hefyd wedi trafod y mater gyda phreswylydd lleol er mwyn sicrhau nad oes rhagor o blanhigion yn cael eu plannu yno.<br><br>g. Goleuadau yn white towers – Llachar (MW)<br>Ymateb gan Cyngor Gwynedd - wedi anfon yr ymholiadau yma i'r Gwasanaeth Gofal Stryd a Thrafnidiaeth. Bydd swyddogion am ymweld â'r safle yn fuan i drafod y mater gyda'r perchnogion.<br><br>h. Bocs GPO rhwng Pen y Groeslon a Bryn Melyn (Rhos Isaf) wedi dechrau cracio (GW).<br>Ymateb gan Cyngor Gwynedd - mae'r arolygwr priffyrdd wedi asesu'r caead ac wedi trefnu i anfon rhybudd ffurfiol i BT i'w drwsio.<br><br>i. Groesffordd Saron – grass verge wedi gwisgo (RO)<br>Croesffordd, Saron.<br>Ymateb Priffyrdd - wedi trefnu i'r Gang Cymunedol dacluso'r safle pan maent yn yr ardal nesaf.<br><br>j. Palmant rhwng ffrwd cau a dinas wedi culhau, angen ei glirio (EE)<br>Ymateb Priffyrdd - maent eisoes wedi ymgymryd â gwaith clirio tyfiant ayyb ar y droedffordd. |
| 7. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Hysbysfwrdd Dinas – Clerc yn nodi fod nifer o gynnigion gwahanol wedi eu cynnig ond fod angen cytuno yn derfynol lle i'w leoli. Cytunwyd mai wrth y safle bws (ochr chwith wrth fynd am Caernarfon) dylai fynd. Clerc i drefnu. |
| 8. | **Is-bwyllgorau**<br>Nodwyd for yr is-bwyllgor cyllid (EJ, MW, JH) wedi cyfarfod wythnos diwethaf ac yn fodlon gyda'r cyfrifon. Llyfrau am gael eu cyflwyno fory i'r archwiliwr. |
| 9. | **a. Adroddiad Ariannol**<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 19 Mai 2015</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: 4,127.75<br>**Ers cyfarfod 15 Ebrill 2015, talwyd i mewn:**<br>Cyngor Gwynedd – Praesept 9,100.00<br>**Balans ar derfyn busnes 19 Mai 2015 13,227.75**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: 7,689.57<br>**Ers cyfarfod 15 Ebrill 2015, talwyd i mewn:**<br>2 gladdiad – (Dafydd Tudur & Norman Edgar Locke) 745.00<br>**Is-gyfanswm 8,434.57**<br>**Ers cyfarfod 15 Ebrill 2015, talwyd allan:**<br>101290 Sbarc 100.00<br>101288 Ysgol gynradd rhosgadfan 1000.00<br>101287 Treialon cwn defaid llanllyfni 50.00<br>101302 Cyllid y Wlad 90.00<br>101300 Sion owen 210.00<br>101301 Caryl E Lewis 402.50 |

| | |
|---|---|
| | **Balans ar derfyn busnes 19 Mai 2015 6582.07**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 20 Mai 2015:</u>**<br>Cyflog Clerc 439.90<br>Cyllid y Wlad (Swyddfa'r Post) 90.00<br>Cyngor Gwynedd – Rhent 1.00<br>Sion Owen <u>590.00</u><br>**Cyfanswm 1120.90**<br><br>**b. Cyfrifon 2014-15**<br>Nodwyd fod yr is-grwp wedi cyfarfod wythnos diwethaf ac yn fodlon gyda'r cyfrifon. Bydd y llyfrau yn cael eu cyflwyno i'r Archwiliwr fory. |
| 10. | **Materion Cynllunio**<br><br>Fron Deg Rhostryfan – Dim sylw<br>Nyth Clyd Rhosgadfan – Dim sylw |
| 11. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br><br>a. Nododd EE yr hoffai longyfarch a diolch i Gylch Meithrin Llanwnda am drefnu ocsiwn elusennol mor llwyddiannus mis diwethaf, roedd yn braf gweld y neuadd yn orlawn a codwyd £11k, swm anhygoel.<br><br>b. Clerc yn nodi nad ydy hysbysfyrddau yn cael eu defnyddio ac yn anodd i bobl roi gwybodaeth gan eu bod wedi cloi. Cytuno i dynnu cloau oddi ar hysbysfyrddau i'w wneud yn haws i bob roi gwybodaeth ynddynt. Clerc i drefnu gyda Wyn.<br><br>c. Planter Rhosgadfan – cais wedi dod gan Bwyllgor y Cae Chwarae i'w symud, AMJ yn y cyfamser wedi rhoi caniatad i'w symud. Angen nodi wrth bwyllgor y cae chwarae eu bod nhw rwan yn gyfrifol amdano mai'r cyngor cymuned sydd wedi talu amdano. |
| 12. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br><br>MW – Ffordd sy'n mynd o Rhosgadfan lawr am Waunfawr, troi lawr am y fynwent ar y gornel – mae bagiau tarmac shavings wedi eu gadael yna ers 3 wythos. Mae angen eu symud.<br><br>EJ – Eisiau trefnu i blannu bulbs o dan coesau arwyddion y pentrefi. Clerc i drefnu.<br><br>NW – Angen diweddariad am y wal wrth mountain rangers.<br><br>**Dyddiad cyfarfod nesaf: 17 Mehefin 2015** |